LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

**Eitem: 12**
**Teitl:** Dangosfwrdd y gweithlu

| | |
|---|---|
| **Gweithredu** | I'w nodi. |
| **Amseru** | Arferol |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Bwrdd ystyried y cynnwys a nodi'r adroddiad |
| **Risg** | Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol i'r gweithlu sy'n gysylltiedig â'r papur hwn. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad a'r dangosfwrdd yn ymwneud â'r risgiau ehangach a fynegwyd yng ngwaith rhwydwaith Llais o gofrestrau risg. |
| **Cyllid** | Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol mewn perthynas â'r adroddiad hwn. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol** | 5 - Tyfu a gwella fel sefydliad |
| **Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | N/A ar yr achlysur hwn |
| **Cyfathrebu** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn effeithio ar:<br>**Mewnol:** ein Pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid / partneriaid / rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ☒ ein sefydliad |
| **Cymeradwyaeth** | Alyson Thomas (Prif Weithredwraig) |
| **Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol** | Eitem agenda sefydlog mewn cyfarfodydd Bwrdd. Cyflwynwyd dangosfwrdd cyntaf y gweithlu i gyfarfod Bwrdd Medi 2024. Mae dangosfwrdd y gweithlu yn destun ystyriaeth fanwl yn y Pwyllgor Gweithlu, Taliadau a Thelerau Gwasanaeth i'w drafod cyn ei ystyried gan y Bwrdd. |
| **Awdur/ Cyflwyno** | Joanne Bolton (Cyfarwyddwraig Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol) |

| Dyddiad | 15 Ionawr 2025 |
|---|---|

## Cefndir

Mae'r Bwrdd yn derbyn dangosfwrdd gweithlu chwarterol.  Mae'r dangosfwrdd yn darparu darlun cryno o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer pobl a datblygiad sefydliadol, ynghyd â rhywfaint o sylwebaeth ar yr hyn y mae'r siart yn ei ddweud wrthym, meysydd sy'n peri pryder a chamau gweithredu neu fesurau lliniaru ar waith.

## Manylion

**Themâu allweddol**

Mae'r prif themâu sy'n codi o ddangosfwrdd y gweithlu ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2024 yn ymwneud â lles staff, lefelau salwch, e-ddysgu gorfodol ac arfarniadau perfformiad.  Mae thema gyffredinol yn ymwneud ag ansawdd y data a gesglir:

- Cynhaliwyd yr arolwg lles staff yn ystod y chwarter hwn.  Roedd lefel uchel o ymgysylltu â'r arolwg.  Roedd y canlyniadau'n gymysg, ond fe roddon nhw arwydd clir bod angen cymryd camau pellach i fynd i'r afael â phryderon lles, gan gynnwys canolbwyntio ar lwyth gwaith.  Rydym yn gweithio gyda staff i ymateb i'r materion a godwyd.

- Mae'r chwarter hwn wedi gweld cynnydd yn lefelau salwch, ac yn enwedig cynnydd mewn salwch tymor hir.  Mewn rhai achosion, nodwyd straen cysylltiedig â gwaith fel rheswm.  Byddwn yn parhau i fonitro ac ymateb i hyn ar lefel sefydliadol.  Ar lefel unigol, mae cydweithwyr yn cael eu cefnogi wrth ddychwelyd i'r gwaith, naill ai trwy ddychwelyd fesul cam neu addasiadau rhesymol.

  Mae adolygiad o adroddiadau salwch wedi nodi rhai meysydd i'w gwella wrth adrodd salwch yn amserol, ac wrth gyflawni a chofnodi camau gweithredu allweddol fel cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith. Trafodwyd pwysigrwydd rheoli ac adrodd am gamau sy'n gysylltiedig â salwch yn unol â'n polisi yn Tîm Arwain ar 14 Ionawr 2024.  Er bod rhywfaint o sicrwydd wedi'i ddarparu bod y trafodaethau dychwelyd i'r gwaith yn digwydd, mae angen mwy o waith i sicrhau bod y rhain yn cael eu cofnodi a'u hadrodd yn glir.

- Er bod cyfraddau cwblhau ar gyfer e-ddysgu gorfodol yn gwella, mae pryderon parhaus nad yw rhai cydweithwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant eto, gyda heriau capasiti yn cael eu nodi fel y rheswm. Mae Tîm Arwain wedi cytuno ar gamau pellach i sicrhau bod amser penodol yn cael ei ddarparu i staff gwblhau'r dysgu.

  Mae problemau gyda chywirdeb data yn parhau i effeithio ar ein gallu i nodi darlun cywir o gwblhau e-ddysgu gorfodol gan staff. Mae camau parhaus ar y gweill gyda'n darparwr gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.

- Mae lefelau arfarnu perfformiad yn isel.  Mae camau ar y gweill i ddeall yn well y rhesymau dros y lefelau isel a gofnodwyd, fel y gellir cymryd camau wedi'u targedu i sicrhau bod trafodaethau arfarnu yn cael eu cynnal a'u bod yn cael eu cofnodi erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

**Camau gweithredu i ddod gan y tîm pobl, lles a datblygu sefydliadol**

- Bydd recriwtio i rôl y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Mewnwelediad yn symud ymlaen ym mis Ionawr 2025.

- Bydd tîm prosiect pwrpasol, gan gynnwys cydweithwyr sy'n gwirfoddoli o bob rhan o'r sefydliad yn dechrau eu hadolygiad ac yn plymio'n ddwfn i ganlyniadau'r arolwg staff diweddar, gyda'r nod o gyd-gynhyrchu atebion.

- Cefnogi rheolwyr llinell a staff i ymgysylltu ag arfarniadau perfformiad a'u cynnal, a galluogi cyflwyno anghenion dysgu a datblygu a nodwyd.